# Cyfarwyddiadau Gêm - Gwe Fwyd

1. Symudwch i le agored, fel neuadd ysgol neu ar iard yr ysgol. Esboniwch eich bod chi'n mynd i wneud gwe fwyd. Gofynnwch i'r disgyblion os ydyn nhw'n gwybod beth yw gwe fwyd (cysylltiad o gadwyni bwyd).
2. Sefwch mewn cylch mawr a rhowch y cardiau elfennau gwe fwyd i rai disgyblion (mae 14 carden felly ni fydd digon o gardiau i bob un).
3. Tynnwch sylw at y testun llai sy'n dangos o ble mae'r organeb yn cael ei egni. Atgoffwch y plant bod hyn yn bwysig iawn ar gyfer y gêm.
4. Dechreuwch gyda'r haul a gofyn pwy sy'n cael eu hegni o'r haul (plancton a gwymon). Esboniwch mai'r rhain yw'r cynhyrchwyr. Cysylltwch y plancton a'r gwymon i'r haul gan ddefnyddio darnau gwahanol o gordyn i bob un.
5. Nawr gofynnwch pwy sy'n cael eu hegni o wymon a chysylltu'r pethau hynny i'r gwymon gyda darnau o gordyn.
6. Gweithiwch drwy'r gadwyn fwyd un ar y tro gan ddefnyddio darnau gwahanol o gordyn ar gyfer pob cadwyn fwyd.
7. Esboniwch fod y creadur ar ddiwedd y gadwyn fwyd yw'r ysglyfaethwr.
8. Parhewch nes bod pob un o'r cadwyni bwyd yn gyfan.

   Bydd hyn yn ffurfio gwe fwyd weledol.

Ni ddylai'r gweithgaredd hwn gymryd mwy na 10 munud. Os oes gennych amser, cwblhewch y gweithgaredd ymestynnol.



# Cyfarwyddiadau Gêm – Gwe Fwyd


Gweithgaredd ymestynnol

1. Gofynnwch i'r disgyblion beth maen nhw'n meddwl byddai'n digwydd i'r we fwyd os yw un o'r anifeiliaid yn diflannu, er enghraifft os caiff cregyn gleision eu gorbysgota. Yna tynnwch y cregyn gleision (mae'r person sy'n dal y cregyn gleision yn gollwng y cordyn).

2. Dylai'r disgyblion adnabod effaith y golled hon, h.y. byddai anifeiliaid sy'n bwyta cregyn gleision yn cael llai o fwyd, a fydd o bosibl yn effeithio ar eu niferoedd. Yna dylid gofyn i'r disgyblion sy'n dal cardiau anifeiliaid sy'n bwyta cregyn gleision ollwng y cordyn sy'n cysylltu eu hanifeiliaid i'r cregyn gleision.

3. Sylwch ar sut mae hyn wedi effeithio ar y we. Trafodaeth sut y gall creaduriaid y mae cregyn gleision yn eu bwyta gynyddu eu niferoedd oherwydd diffyg ysglyfaethwyr.

4. Esboniwch y gall pob elfen o fewn gwe fwyd effeithio ar y lleill.



## Pobl

Bwyta: gwichiad môr, cranc bwytadwy, cregyn gleision ,

lleden a gwymon



## Morfil

Bwyta: dyfrgi



## Morlo

Bwyta: lleden



## Lleden

Bwyta: cregyn gleision



## Cregyn gleision

Bwyta: plancton



## Gwichiad môr

Bwyta: cranc meudwyol, cregyn gleision



## Cranc Meudwyol

Bwyta: gwymon



## Dyfrgi

Bwyta: môr ddraenog



## Môr ddraenog

Bwyta: gwymon



## Cranc bwytadwy

Bwyta: mwydyn, cregyn gleision a gwymon



## Mwydyn

Bwyta: gwichiad môr, cranc bwytadwy, lleden a gwymon




## Heulgi

Bwyta: plancton



## Plancton

Yn cael egni o'r haul




## Gwymon

Yn cael egni o'r haul



Lleden, cregyn gleision, cranc bwytadwy , - Paul Naylor; Siarc- Peter Bardsley; Môr-ddraenog - Ria Tan

# Taflen waith – Gwe Fwyd



# Taflen Waith – Gwe Fwyd

